# LC1453

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (S.I. 2006/31 (W.5)) drwy ddiweddaru diffiniadau offerynnau penodol y Gymuned y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hynny.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Er bod bwriad rheoliad 2(2) yn glir, mae’n esgeuluso’r ffaith bod y diffiniadau Cymraeg mewn trefn wahanol a bod y Gyfarwyddeb ar ddechrau’r rhestr yn hytrach nag ar y diwedd yn golygu y dylai’r newidiad symud y ddarpariaeth i le gwahanol ar y rhestr. Fel y mae’r Pwyllgor hwn wedi argymell o’r blaen, y ffordd orau o ddisgrifio ychwanegiadau o’r fath yw drwy ddweud eu bod wedi’u gwneud yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor yn hytrach na mewn lle penodol, a byddai ychwanegu’r Gyfarwyddeb ar y diwedd wedi caniatáu i’r rhestr ymddangos yn yr un lle ag y mae yn awr yn y ddwy iaith. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae hwn yn fân wall drafftio y gellir ei gywirio drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Cafodd y Gorchymyn Dynodi y cyfeirir ato yn y troednodyn ar yr ail dudalen ei ddirymu a’i amnewid gan 2005/1971. Rhoddodd hwnnw bwerau tebyg i’r Cynulliad ac felly nid oes angen newid testun y

Rheoliadau.

Cafodd y Rheoliadau diwygio hyn eu drafftio er mwyn ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd bellach, ond mae cymaint o Gyfarwyddebau, Rheoliadau a Phenderfyniadau yn cael eu gwneud fel y bu angen parhaus i ddiweddaru deddfwriaeth weithredol yn y ffordd yma.

Fodd bynnag, tra bu’r ddeddfwriaeth hon yn cael ei pharatoi, derbyniodd y *Legislative and Regulatory Reform Act 2006* Gydsyniad Brenhinol a daeth i rym ar 8 Ionawr 2007. Bydd Adran 28 y Ddeddf honno yn caniatáu i gyfeiriadau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn y dyfodol fod "fel y’i diwygiwyd o bryd i’w gilydd". Unwaith y caiff yr arfer hwnnw ei fabwysiadu, bydd yn lleihau graddfa’r newidiadau sydd i’w gwneud mewn deddfwriaeth fel hyn yn sylweddol.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Chwefror 2007